Pencampwriaeth Rib Ieuenctid 2008 Cymdeithas Hwylio Frenhinol Honda

Mae Pencampwriaeth Rib Honda yn gystadleuaeth flynyddol. Mae gan Gymru rhagras ymhob rhanbarth: y Gogledd, De a'r Gorllewin, ac mae'r enillwyr o bob oedran grŵp yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth derfynol a gafodd ei gynnal eleni yng Nghlwb Hwylio Sir Benfro yn Aberdaugleddau.

Eleni, penderfynwyd gwneud rhywbeth gwahanol.

Gyda chychod injan, mae yna bob amser risg y bydd ychydig o'r olew neu'r tanwydd yn gollwng i'r dŵr. Mae hyn yn creu niwed i'r amgylchedd morol gan fod olew yn lledaenu dros arwynebedd eang. Mae'r ffilm yma yn atal ocsigen rhag mynd i'r plancton yn y dŵr yn ogystal â bod yn

niweidiol i fywyd dyfrol. Mae cael gwared ohono yn gallu bod yn anodd ac felly mae'n well ei atal rhag mynd i'r dŵr yn y lle cyntaf. Mae yna bethau syml y gallwn ei wneud i atal arllwysiad o olew, megis defnyddio coler ar y ffroenell tanwydd i'w atal rhag diferu. Ac os oes diferiad bach, mae clwtyn sy'n amsugno olew yn ffordd well i'w symud o'r cwch neu'r dŵr.

Dyma'r neges rydym eisiau ei roi i berchnogion a defnyddwyr cychod pŵer, ac roeddem yn credu y byddai cystadleuaeth Honda Rib yn gyfle da i wneud hynny. Nid yn unig y plant oedd yn ymwybodol o'r hyn oedd yn rhaid iddynt ei wneud, ond roedd eu teuluoedd, ffrindiau a'r clybiau yn derbyn y neges hefyd. Fe benderfynon ni mai'r lle gorau i ddechrau oedd rhoi potel dŵr a ellir ei hail ddefnyddio yn ogystal â chopi o'n taflenni i bob un a gymerodd rhan. Dyma ni'n dewis cynllun a fyddai'n ddefnyddiol ac yn ddigon cŵl i blant fod eisiau eu defnyddio.

Gwyddwn fod angen mwy na hynny, felly dyma ni'n gwneud pecyn arllwyso. Mae'n debygol na fyddai'r plant yn eu gwerthfawrogi ond byddent yn ddefnyddiol iawn ar gyfer y clybiau. Felly, roddwyd pecyn arllwyso i bob clwb oedd yn ennill rhagras.

Ar gyfer y rhai buddugol yn derfynol, rhoddwyd bocs o hylifau glanhau Ecover iddynt. Roeddent yn ddefnyddiol i deuluoedd yr enillwyr lle'r oedd eu cefnogaeth yn allweddol. A thrwy ddefnyddio'r cynnyrch yma byddent yn parhau i'w prynu ac o bosib yn eu hargymell i ffrindiau yn eu clybiau.

Dyma oeddem eisiau ei wneud, ond gyda chyllid cyfyngedig roedd hyn yn anodd. Gan fod y gystadleuaeth derfynol yn cael ei chynnal yn Aberdaugleddau, gofynnwyd i Chevron noddi'r poteli dŵr. Cytunodd y cwmni'n garedig i wneud hyn, a rhoddwyd cyfraniad i'r Glas Wyrdd er mwyn lleihau'r gost. Gofynnais am gyllid cyfatebol gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Cytunodd y Cyngor i wneud hynny, ac felly, gyda'r arian prynwyd poteli gyda'r logos a'r pecynnau arllwyso. Roedd gwobrau'r cystadleuwyr buddugol yn broblem, ond fe gyfrannodd CQuip y cynnyrch Ecover.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan na fyddai modd i ni wneud hyn oll eu cymorth.

Roedd rhagras De Cymru ym Mae Caerdydd, ac wedi ei drefnu fel rhan o'r penwythnos Weithgareddau. Er bod y glaw wedi cadw ffwrdd yn siomedig roedd y tywydd yn wael. Gyda llawer o bobl o gwmpas dyma fwy na chystadleuwyr yn derbyn taflenni'r Glas Wyrdd. Fe drefnwyd rhagras Gogledd Cymru gan Ysgol Fôr Alltraeth Pwllheli, a chynhaliwyd y gystadleuaeth ym mhorthladd Pwllheli. Roedd y tywydd yn ofnadwy, gyda gwynt cryf a glaw, ond cynhaliwyd cystadleuaeth wych gyda rasio da serch hynny. Roedd y rhagras olaf yng Ngorllewin Cymru wedi ei gynnal yng Nghlwb Hwylio Sir Benfro yn y bae lle cafwyd cystadleuaeth wych. Gyda'r holl ragrasys, aeth y cychod diogelwch o gwmpas yn gosod y bwiau marcio. Roedd hefyd yn sicrhau bod bywyd gwyllt megis morfilod yn cael digon o gyfle i gadw draw o'r ras.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth derfynol ar yr un prynhawn gydag enillwyr y rhagrasys yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Roedd yn ras agos iawn, ond yn y diwedd fe gafwyd dau enillydd i gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Derfynol y DU yn sioe Gychod Southampton ym mis Medi.

Llun: Chris Jeffries

Llun: Alan Dop

Mae cystadleuaeth Honda rib yn gyfle gwych i bobl ifanc ddysgu sgiliau mewn rasio cwch pŵer. Cynhaliwyd y gystadleuaeth mewn amgylchedd diogel gyda chystadleuwyr yn rasio yn erbyn y cloc. Roedd hefyd yn gyfle gwych i ddysgu am effaith y chwaraeon ar yr amgylchedd a pha gamau gellir eu cymryd i leihau'r effaith.

Diolch i bawb yng Nghymdeithas Hwylio Cymru a gynorthwyodd er mwyn ei gwneud hi'n ddigwyddiad llwyddiannus, ac i Ysgol Fôr Alltraeth a Chlwb Hwylio Sir Benfro, heb anghofio'r noddwyr.